# Gwella Hyder a Chymhwysedd yn y Gymraeg drwy Ddarpariaeth Ddwyieithog

Amy Lewis

CRYNODEB

Mae strategaeth 'Cynnig Rhagweithiol' Llywodraeth Cymru (2022) yn ceisio cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg drwy sicrhau bod gan bawb sy'n gweithio ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gymraeg lefel cwrteisi. Cyflwynwyd modiwl cyfathrebu'n ddwyieithog i grŵp o fyfyrwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol am ddeng wythnos. Sgoriodd myfyrwyr eu hunain ar eu sgiliau siarad Cymraeg, eu hyder mewn siarad Cymraeg cwrteisi a pha mor bwysig oedd darparu gwasanaethau'n ddwyieithog yn eu tyb nhw cyn ac ar ôl y modiwl. Dangosodd y canlyniadau fod y myfyrwyr yna adrodd bod eu sgiliau siarad Cymraeg, eu hyder wrth ddefnyddio'r sgiliau hyn a'u dealltwriaeth o bwysigrwydd siarad Cymraeg a'r 'Cynnig Rhagweithiol' wedi cynyddu.

**Geiriau allweddol:** dwyieithrwydd, sgiliau Cymraeg, cynnig rhagweithiol

---

## Cyflwyniad

Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o hunaniaeth ddiwylliannol a chenedlaethol pobl Cymru. Yn 2017, dechreuodd Llywodraeth Cymru eu strategaeth i gynyddu nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg i filiwn erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 2017).

*https://doi.org/10.16922/ffocws21*

Un o'r ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i gyflawni hyn yw manteisio ar y 200,000 o weithwyr yn y gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a sicrhau bod ganddynt i gyd lefel ofynnol o 'Gymraeg cwrteisi' er mwyn gallu cynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, sef y 'Cynnig Rhagweithiol' (Llywodraeth Cymru, 2022a).

Gyda hyn mewn golwg, nod yr ymchwil hon oedd cyflwyno modiwl cyfathrebu yn ddwyieithog i fyfyrwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3 gyda'r nod o gynyddu eu dealltwriaeth o'r Cynnig Rhagweithiol a sut y bydd yn effeithio arnynt yn eu gyrfaoedd yn y sector.

## Llenyddiaeth

Mae nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yng Nghymru tua 20 y cant o gyfanswm y boblogaeth, sef 580,000. Mae'r rhai sy'n ei defnyddio bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau tua 10%, tua 300,000 (Llywodraeth Cymru, 2021). Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio cynyddu'r nifer hwn i 1 miliwn o siaradwyr erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 2017).

Mae caffael ail iaith yn cymryd amser i'w gyflawni ac mae'n rhaid dod i gysylltiad mynych â'r iaith darged. (Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 2018). Bydd pobl sy'n byw yng Nghymru nad ydynt yn siaradwyr brodorol yr iaith wedi dod i gysylltiad â'r Gymraeg i raddau amrywiol, rhai drwy'r ysgol gynradd a/neu uwchradd, eraill trwy gysylltiadau teuluol neu yn y gymuned (Llywodraeth Cymru, 2022b). Fodd bynnag, y tu hwnt i'r cyfleoedd hynny i ddefnyddio ac ymgysylltu â'r iaith, oni bai eu bod wedi chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio a datblygu sgiliau Cymraeg ar ôl un ar bymtheg oed, ni fydd llawer o siaradwyr wedi siarad Cymraeg am nifer o flynyddoedd er bod ganddynt sgiliau lefel sylfaenol yn yr iaith (Comisiynydd y Gymraeg, 2023). Mae hyn yn her pan fydd siaradwyr o'r fath yn ymuno â phroffesiynau lle mae angen lefelau sylfaenol o allu Cymraeg. Un proffesiwn o'r fath yw Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Llywodraeth Cymru, 2019a).

Mae'r cwrs penodol Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3 lle y cynhaliwyd yr astudiaeth hon wedi'i gynllunio ar gyfer myfyrwyr hŷn sydd eisiau mynd i mewn i Addysg Uwch yn benodol. Mae'r cwrs yn denu pobl sydd eisiau symud ymlaen i

nyrsio, gwaith cymdeithasol a phroffesiynau eraill perthynol i iechyd. Wrth ymuno â'r proffesiynau hyn, bydd disgwyl y bydd gan y graddedigion hyn Gymraeg cwrteisi sy'n cael ei diffinio fel y gallu i

- ynganu geiriau, enwau, enwau lleoedd a thermau Cymraeg,
- ateb y ffôn yn ddwyieithog,
- cyfarch pobl neu gyflwyno pobl yn ddwyieithog,
- deall a defnyddio'n rhagweithiol ymadroddion bob dydd a geiriau allweddol syml sy'n ymwneud â'r gweithle,
- darllen a deall testunau byrion, darparu gwybodaeth sylfaenol a dangos ymwybyddiaeth o iaith – sy'n cynnwys ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ei angen i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid dwyieithog. (Llywodraeth Cymru, 2020)

Er mwyn caniatáu i fyfyrwyr ddatblygu'r sgiliau hyn, gwnaethom addasu modiwl a fyddai'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar y sgiliau hyn, tra hefyd yn cyflwyno mwy o Gymraeg (h.y. cynyddu'r dimensiwn dwyieithog) wrth gyflwyno'r modiwl, gan symud o B3 i B2 ar y continwwm dwyieithog (Sgiliaith, 2022). Mae B2 yn golygu bod angen defnyddio llawer iawn o ddysgu cyfrwng Cymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn y rhan fwyaf o'r dysgu. Gall asesu fod yn Saesneg yn bennaf ond gall rhywfaint hefyd fod yn Gymraeg. Y nod cyffredinol oedd i'r myfyrwyr ddod yn fwy rhugl mewn Cymraeg cwrteisi a sicrhau eu bod yn deall beth oedd y Cynnig Rhagweithiol a beth oedd yn ei olygu wrth ddechrau gweithio ym maes gofal iechyd.

Mae safonau iaith Llywodraeth Cymru (2022c) yn awgrymu y dylid cyflwyno'r holl ddeunydd cyfathrebu a marchnata ochr yn ochr yn ddwyieithog, â'r Gymraeg yn gyntaf gan beidio â'i thrin yn llai ffafriol. Ar gyfer y modiwl sy'n cael ei ymchwilio yn yr ymchwil hon, rhoddwyd hyn ar waith fel y ffordd orau o gyflwyno deunyddiau dwyieithog mewn sesiwn ystafell ddosbarth, drwy gyflwyno'r holl ddeunyddiau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ymhlith y strategaethau dwyieithog eraill a ddefnyddiwyd roedd cyfarch dysgwyr a rhoi gorchmynion syml a chanmoliaeth yn Gymraeg, yn unol â syniadau Cymraeg cwrteisi. Cefnogwyd yr holl sesiynau hefyd drwy ddefnyddio adnoddau sydd ar gael ar Hwb (2022), sydd â chasgliad o offer ar-lein, a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (2024), sy'n darparu adnoddau drwy'r Porth yn benodol i helpu colegau addysg bellach a phrifysgolion i greu cyfleoedd i hyfforddi ac astudio yn Gymraeg.

## Dulliau

### *Moeseg*

Cynhaliwyd yr astudiaeth hon fel rhan o strategaeth ymchwil weithredu coleg addysg bellach. Adolygodd a chymeradwyodd y pwyllgor moeseg y cynnig ymchwil, gan sicrhau ei fod yn bodloni'r holl safonau moesegol angenrheidiol. Cafodd y cyfranogwyr daflenni gwybodaeth fanwl yn manylu ar bwrpas y prosiect, beth fyddai'n ei olygu, at beth fyddai eu data yn cael ei ddefnyddio, beth fyddai'n rhaid iddynt ei wneud ac unrhyw risgiau/manteision yn gysylltiedig â chymryd rhan. Yna gofynnwyd i'r cyfranogwyr lofnodi ffurflen gydsynio yn cadarnhau eu bod wedi darllen y daflen wybodaeth, eu bod yn deall bod eu cyfranogiad yn wirfoddol ac yn cytuno i'w data gael ei ddefnyddio.

### *Cyfranogwyr a Samplu*

Defnyddiwyd samplu cyfleustra gan fod y modiwl eisoes yn cael ei gyflwyno i dri grŵp o fyfyrwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3. Roedd y sampl gychwynnol yn cynnwys 44 o fyfyrwyr, ar draws tri grŵp addysgu. Dyma garfan gyfan y cwrs hwn er mwyn sicrhau cydraddoldeb profiad dysgu. Roedd y sampl yn cynnwys menywod yn bennaf (92 y cant) a'r ystod oedran oedd 18-48 oed. Ar ôl cyflwyno modiwl deng wythnos, ail-ddosbarthwyd yr holiadur ac fe'i cwblhawyd gan 34 o gyfranogwyr (77 y cant o'r cyfranogwyr gwreiddiol). Cyflwynir galluoedd iaith y cyfranogwyr cyn ac ar ôl ymyrraeth y modiwl yn y canlyniadau.

### *Cynhyrchu data*

Parhaodd y gwaith cyflwyno dwyieithog trwy gydol y modiwl (deng wythnos). Cyn i'r modiwl ddechrau, cwblhaodd y cyfranogwyr holiadur yn gofyn iddynt wneud y canlynol:

1. Sgorio eu sgiliau siarad Cymraeg gan ddefnyddio'r fframwaith sgiliau Cymraeg
2. Sgorio eu hyder wrth ddefnyddio eu sgiliau siarad Cymraeg
3. Sgorio pa mor bwysig oedd gallu cynnig gwasanaethau yn Gymraeg yn eu tyb nhw ac
4. Ateb ysgrifenedig hirach yn esbonio eu hateb i gwestiwn 3

Yna ailadroddwyd yr holiadur hwn ar ddiwedd y modiwl. Mae'r Fframwaith Iaith Gymraeg a ddefnyddiwyd yn seiliedig ar y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (CEFR) sy'n rhannu ieithoedd yn bedwar maes sef gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu. Gall pobl sgorio eu hunain ar y pedwar maes hwn ar wahân rhwng dim sgiliau (0), mynediad (1), sylfaen (2), canolradd (3), uwch (4) a hyfedr (5) (Cyngor Ewrop, 2024). Roedd yr opsiynau siarad a gynigiwyd i'r cyfranogwyr yn seiliedig ar y rhai sydd ar gael drwy Gyngor Sir Ddinbych (2024) a gellir eu gweld yn ffigur 1.

Roedd y cyflwyno dwyieithog yn cynnwys cyfarch dysgwyr yn Gymraeg, cyflwyno'r holl adnoddau'n ddwyieithog ac ochr yn ochr â'i gilydd, cyrsiau byrion perthnasol yn cael eu hymgorffori mewn gwersi, astudiaethau achos yn Gymraeg neu gyda chyd-destun Cymraeg, trosolwg o'r cyfreithiau yng Nghymru sy'n gysylltiedig â'r Cynnig Rhagweithiol, tynnu sylw at eirfa Gymraeg, cyfleoedd i ymarfer Cymraeg sgwrsio, cwblhau geirfa o ymadroddion Cymraeg defnyddiol ac, yn olaf, gweithgareddau chwarae rôl gan ddefnyddio'r swyddogion datblygu Cymraeg. I gael rhagor o fanylion am yr adnoddau a'r cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg, gweler atodiad 1.

Bob wythnos, roedd cyfranogwyr yn llenwi tocyn ymadael electronig, a oedd yn gofyn beth oeddent yn ei fwynhau'n benodol am y cyflwyno dwyieithog a beth oeddent yn teimlo y gellid ei wella.

Mae ystadegau disgrifiadol o amgylch y cwestiynau meintiol yn cael eu harddangos yn y tablau yn yr adran ganlyniadau isod. Dadansoddwyd yr ymatebion

**Ffigur 1: Fframwaith Sgiliau Iaith Gymraeg Cyngor Sir Ddinbych**

| Lefel 0 | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dim lefel gyfredol o sgiliau Cymraeg | Yn gallu dweud enwau lleoedd / enwau cyntaf Cymraeg neu arwyddion Cymraeg yn gywir<br>Yn gallu cyfarch a chyflwyno eraill yn Gymraeg<br>Yn gallu dangos cwrteisi ieithyddol trwy agor a chau sgwrs<br>Yn gallu rhoi a derbyn manylion personol | Yn gallu deall hanfod Sgwrs yn Gymraeg<br>Yn gallu cyfleu gwybodaeth sylfaenol e.e. tasgau gweinyddol neu bob dydd syml<br>Yn gallu rhoi a derbyn cyfarwyddiadau a chyfeiriadau | Yn gallu sgwrsio'n rhannol yn Gymraeg ond yn troi at Saesneg wrth drafod ac i roi gwybodaeth fanwl<br>Yn gallu disgrifio pobl a lleoliadau | Yn gallu cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd o fewn eu maes gwaith eu hunain a dadlau o blaid neu yn erbyn achos.<br>Yn gallu delio â phobl yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd yn Gymraeg ond yn troi at Saesneg wrth ddelio â sefyllfaoedd cymhleth | Yn gallu ymdrin yn effeithiol â thrafodaethau a chwestiynau cymhleth yn y Gymraeg<br>Yn gallu addasu'r arddull iaith i weddu i bob sefyllfa ac angen |

ansoddol gan ddefnyddio dadansoddiad thematig gan ChatGPT 3.5, sydd, oherwydd natur fer a syml yr ymatebion, yn offeryn cynorthwyol addawol (Lee, Van der Lubbe, Goh a Valderas, 2024). Cafodd y dadansoddiad hwn ei groeswirio hefyd am gywirdeb.

## Canlyniadau a thrafodaeth

### *Canlyniadau meintiol*

Dangosodd canlyniadau'r holiadur cyn ac ar ôl cyflwyno, ar y cyfan, fod myfyrwyr yn teimlo bod eu sgiliau Cymraeg (Tabl 1) wedi gwella, gyda llai o ddysgwyr yn nodi eu bod yn Lefel 0 ac 1 a mwy ar Lefel 2 (mwy na 50 y cant o'i gymharu â 14 y cant cyn cyflwyno). Roedd hyder y myfyrwyr wrth ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg sylfaenol wedi dyblu, gyda 77 y cant bellach yn teimlo ychydig yn hyderus neu'n hyderus iawn o'i gymharu â 34 y cant cyn y cyflwyno (Tabl 2). Yn olaf, roedd eu barn am bwysigrwydd gallu siarad a chynnig gwasanaethau yn Gymraeg wedi newid

**Tabl 1. Sgiliau siarad Cymraeg gan ddefnyddio'r fframwaith sgiliau Cymraeg**

| | Lefel 0 | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyn** | 34% | 52% | 14% | 0 | 0 | 0 |
| **Ar ôl** | 9% | 35% | 56% | 0 | 0 | 0 |
| **% o newid** | **(↓25%)** | **(↓17%)** | **(↑42%)** | | | |

**Tabl 2. Hyder yn sgwrsio yn Gymraeg ar lefel sylfaenol**

| | Ddim yn hyderus o gwbl | Ddim yn hyderus iawn | Ychydig yn hyderus | Hyderus iawn |
|---|---|---|---|---|
| **Cyn** | 32% | 34% | 32% | 2% |
| **Ar ôl** | 6% | 17% | 68% | 9% |
| **% o newid** | **(↓26%)** | **(↓17%)** | **(↑36%)** | **(↑7%)** |

**Tabl 3. Pwysigrwydd gallu siarad a chynnig gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Gymraeg**

| | Ddim yn bwysig o gwbl | Ddim yn bwysig iawn | Ychydig yn bwysig | Pwysig iawn |
|---|---|---|---|---|
| **Cyn** | 4.5% | 4.5% | 36% | 55% |
| **Ar ôl** | 0 | 6% | 24% | 70% |
| **% o newid** | **(↓4.5%)** | **(↑1.5%)** | **(↓12%)** | **(↑15%)** |

o ran pwysigrwydd o 55 y cant yn unig yn meddwl ei fod yn bwysig iawn, i 70 y cant bellach yn meddwl ei fod yn bwysig iawn (Tabl 3).

***Canlyniadau ansoddol yn seiliedig ar bwysigrwydd gallu siarad a chynnig gwasanaethau yn Gymraeg***

Nododd Open AI (ChatGPT 3.5) mai'r bum prif thema cyn cyflwyno oedd (i) bod y Gymraeg yn bwysig fel rhan o hunaniaeth ddiwylliannol a chenedlaethol; (ii) ei bod yn bwysig am ein bod yn gweithio yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac yn gallu cyfathrebu â chleifion; (iii) ei bod yn gwella cyflogadwyedd a chyfleoedd am swyddi; (iv) ei bod yn cynyddu cynhwysiant a hygyrchedd; a (v) bod lefelau pwysigrwydd yn cael eu dylanwadu gan leoliad daearyddol, amgylchedd gwaith, a dewisiadau personol. Croeswiriwyd y themâu hyn gan yr awdur i sicrhau dilysrwydd. Cytunodd yr awdur fod y pum thema hyn yn bresennol.

Ar ôl derbyn y modiwl deg wythnos, newidiodd ffocws ymatebion cyfranogwyr i'r un cwestiynau, o hawliau'r cleifion a phwysigrwydd yr iaith i fanteision clir ei defnyddio tra hefyd yn myfyrio ar ymarferoldeb ei chyflwyno. Newidiodd y pum prif thema ar ôl cyflwyno i (i) cyfathrebu a sut roedd yn gwneud i gleifion deimlo'n fwy cyfforddus; (ii) ei bod yn barchus ac yn sensitif i ddiwylliant pobl; (iii) ei bod yn ddefnyddiol ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol; (iv) ei bod yn caniatáu gofal llawn sy'n canolbwyntio ar y person a bod (v) er ei bod yn bwysig, roedd angen cydbwyso ei hymarferoldeb.

Yn gyffredinol, roedd sgoriau'r myfyrwyr eu hunain ar gyfer eu sgiliau siarad Cymraeg y myfyrwyr, eu hyder wrth ddefnyddio'r sgiliau hyn a'u dealltwriaeth o

**Tabl 4. Dadansoddiad thematig o ymatebion ansoddol cyn y cyflwyno**

| Thema | Enghraifft o ddyfyniadau uniongyrchol gan gyfranogwyr dienw |
|---|---|
| Hunaniaeth Ddiwylliannol a Chenedlaethol: ymdeimlad o falchder yn yr iaith Gymraeg, iaith fel hunaniaeth a diogelu'r Gymraeg | 'Dyma iaith genedlaethol Cymru, a dylem fod yn falch o'i siarad a bod gennym ein hiaith ein hunain. Mae'r Gymraeg yn tyfu mewn poblogrwydd gyda mwy o ysgolion Cymraeg, felly gallai fod yn berthnasol iawn yn y dyfodol.'<br>C18 |
| Cyfathrebu mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Pwysigrwydd y Gymraeg yn y sector hwn, yn cysuro a lleihau pryder | 'Rwy'n credu ei bod yn bwysig gallu siarad a chynnig gwasanaethau yn Gymraeg gan ei fod yn cynnig cysur i siaradwyr Cymraeg ac efallai mai dyma iaith gyntaf yr unigolyn neu'r iaith y mae'n ei ffafrio.'<br>C35 |
| Cyflogadwyedd a Chyfleoedd: Mwy o gyfleoedd swyddi, gwell cyflogadwyedd | 'Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn gan fod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn delio â phobl o bob cefndir ethnig gwahanol gydag ieithoedd gwahanol, mae yna lawer yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg ac mae'n bwysig i ni allu eu deall a siarad â nhw mewn iaith maen nhw'n gyfforddus ac yn hyderus ynddi.'<br>C41 |
| Cynhwysiant a Hygyrchedd: Mae siaradwyr Cymraeg angen gwasanaethau yn yr iaith sydd orau ganddynt, gan adeiladu perthynas ac ymddiriedaeth | 'Rwy'n credu ei bod yn bwysig gan fod yna lawer o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru sy'n fwy cyfforddus yn siarad Cymraeg, felly bydd gallu cyfathrebu â nhw yn helpu i adeiladu perthynas yn ogystal â phreifatrwydd os oes angen.'<br>C13 |
| Lefelau pwysigrwydd amrywiol: amrywiaeth barn, wedi'u dylanwadu gan ffactorau fel lleoliad daearyddol, amgylchedd gwaith, a dewisiadau personol, dywedodd rhai ei bod yn hanfodol, i eraill roedd yn llai pwysig iddyn nhw'n benodol | 'Rwy'n credu ei fod yn bwysig, ond dewisais "ychydig yn bwysig" oherwydd fy mod i'n gweithio yn y lleoliad iechyd ar hyn o bryd ac wedi bod ers 10 mlynedd ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw unigolyn sydd eisiau sgwrsio yn Gymraeg neu ddefnyddio'r Gymraeg'.<br>C36 |

(Open AI, 2024)

**Tabl 5. Dadansoddiad thematig o ymatebion ansoddol ar ôl cyflwyno**

| Thema | Enghraifft o ddyfyniadau uniongyrchol gan gyfranogwyr dienw |
|---|---|
| Cyfathrebu a Chysur mewn Gofal Iechyd: pwyslais ar fod yn gysurus a chyfforddus, adeiladu perthynas, ymddiriedaeth, perthnasoedd rhwng darparwyr gofal iechyd a defnyddwyr gwasanaeth. | 'Rwy'n credu bod Cymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn bwysig iawn, oherwydd gall wneud i'r defnyddiwr gwasanaeth deimlo'n fwy cyfforddus a bydd yn gallu ymddiried yn y gweithiwr iechyd/gofal cymdeithasol.'<br>C9 |
| Sensitifrwydd a Chynhwysiant Diwylliannol: pwyslais cryf ar barchu diwylliant a hunaniaeth siaradwyr Cymraeg trwy gynnig gwasanaethau, a ystyrir yn weithred o uniondeb, parch a chynhwysiant | 'Rwy'n credu bod Cymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn bwysig iawn, oherwydd gall wneud i'r defnyddiwr gwasanaeth deimlo'n fwy cyfforddus a bydd yn gallu ymddiried yn y gweithiwr iechyd/gofal cymdeithasol.'<br>C35 |
| Datblygiad Proffesiynol a Phersonol: Pwysig i ddiwylliant Cymru, cyfleoedd gwaith a gwella cyfathrebu yn y sector | 'Rwy'n credu ei bod yn bwysig gan ei bod yn agor llawer mwy o gyfleoedd swyddi, hefyd yn eich helpu chi gyda rhwystr cyfathrebu.'<br>C16 |
| Gofal sy'n canolbwyntio ar y claf: Dewisiadau ac anghenion cleifion, goresgyn rhwystrau iaith, amgylchedd amrywiol sy'n sicrhau cyfathrebu effeithiol a boddhad cleifion. | 'Er mai Saesneg yw'r brif iaith a siaredir, efallai y bydd llawer o bobl yn dal i siarad Cymraeg yn unig neu ei bod yn well ganddyn nhw'r Gymraeg. Mae'n bwysig darparu ar gyfer pawb i sicrhau bod pawb ar eu hapusaf a'u mwyaf cyfforddus.'<br>C13 |
| Cydbwyso ymarferoldeb a phwysigrwydd: heriau ymarferol, mae'n cymryd amser, yn cydnabod pwysigrwydd sgiliau yn y Gymraeg, ond roedd ymwybyddiaeth hefyd o'r angen i gydbwyso cynhwysiant ag ystyriaethau ymarferol. | 'Rwy'n credu ei bod ychydig yn bwysig oherwydd er ei bod yn bwysig iawn bod yn gynhwysol, a pheidio â gwahaniaethu ac annog parhau i ddefnyddio'r iaith frodorol rhag iddi ddiflannu, gall hefyd achosi llawer o ddryswch a chymryd llawer o amser wrth ddelio â chleifion a all achosi oedi (oherwydd yr angen i gael cyfieithydd etc.).'<br>C34 |

(Open AI, 2024)

bwysigrwydd siarad Cymraeg a'r Cynnig Rhagweithiol wedi cynyddu. Yn gyffredinol, dangosodd yr ymatebion ansoddol well dealltwriaeth o bwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal iechyd, gyda newid tuag at gydnabod ei heffaith ehangach ar gleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Er bod yr adborth yn gadarnhaol a bod myfyrwyr yn hapus i ymarfer eu Cymraeg yn y dosbarth, pan gawsant gyfle i gynnwys y Gymraeg yn eu haseiniad, dim ond lleiafrif bach a fanteisiodd ar y cyfle, Gallai hyn nodi rhywfaint o ragfarn dymunoldeb cymdeithasol er bod yr holiaduron yn ddienw.

## Casgliad

Mae'n ymddangos bod y modiwl a addysgwyd yn ddull effeithiol ar gyfer rhoi hwb i ddealltwriaeth myfyrwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3 o Gynnig Rhagweithiol Llywodraeth Cymru a'u hyder wrth ddefnyddio Cymraeg cwrteisi. Mae'r canfyddiadau'n dangos y gall dull dwyieithog sydd wedi'i gynllunio'n ofalus wella sgiliau iaith Gymraeg sylfaenol dysgwyr, gwella eu hyder wrth ddefnyddio'r iaith, a dyfnhau eu gwerthfawrogiad o'i pherthnasedd yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Dangosodd canlyniadau meintiol welliannau clir yn eu hunanasesiad o'u gallu iaith a phwysigrwydd canfyddedig y Gymraeg, tra bod data ansoddol yn adlewyrchu newid nodedig mewn agweddau - o syniadau haniaethol o hunaniaeth genedlaethol i ystyriaethau mwy ymarferol sy'n canolbwyntio ar y claf.

Er gwaethaf y canlyniadau cadarnhaol, mae'r defnydd cyfyngedig o'r Gymraeg mewn gwaith a aseswyd yn awgrymu efallai na fydd mwy o ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad yn trosi ar unwaith i ddefnydd gweithredol o'r iaith, o bosibl oherwydd gorbryder o hyd, hyder cyfyngedig, neu rwystrau canfyddedig mewn lleoliadau proffesiynol. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu, er y gall ymyriadau tymor byr fod yn effeithiol wrth newid agweddau a sgiliau sylfaenol, mae amlygiad ac ymarfer parhaus yn hanfodol i ymgorffori cymhwysedd dwyieithog yn fwy llawn.

Mae'r astudiaeth hon yn tynnu sylw at werth ymgorffori addysg ddwyieithog mewn cyrsiau sy'n cefnogi nod ehangach Llywodraeth Cymru o normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau proffesiynol bob dydd. Wrth i'r gweithlu

iechyd a gofal cymdeithasol barhau i dyfu, gall mentrau fel hyn chwarae rhan hanfodol wrth greu gwasanaeth cynhwysol sy'n parchu ac yn adlewyrchu anghenion cymunedau Cymraeg eu hiaith.

## Diolchiadau

Hoffwn ddiolch i'm cyflogwr am ganiatáu i mi gwblhau'r ymchwil hon. Diolch yn arbennig i dîm y Gymraeg am fy nghefnogi drwy fy nghymwysterau Cymraeg a'u brwdfrydedd ynghylch y Gymraeg ac addysgu dwyieithog.

## Cyfeiriadau

Cambridge University Press (2018). How long does it take to learn a foreign language? Gw. https://www.cambridge.org/elt/blog/wp-content/uploads/2018/10/How-long-does-it-take-to-learn-a-foreign-language.pdf (cyrchwyd 10 Mehefin 2025).

Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC) (2024). Gw. https://colegcymraeg.ac.uk/ (cyrchwyd 4 Medi 2023).

Comisiynydd y Gymraeg (2023). Addysg ôl-orfodol a'r Gymraeg: llais y dysgwyr. Gw. https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/media/hupaz2np/addysg-ol-orfodol-ar-gymraeg-llais-y-dysgwyr.pdf (cyrchwyd 10 Mehefin 2025).

Council of Europe (2024). Common European Framework of Reference for Languages (CEFR). Gw. https://www.coe.int/en/web/common-european-framework-reference-languages/level-descriptions (cyrchwyd 12 Medi 2023).

Cyngor Sir Ddinbych (2024). Fframwaith sgiliau Iaith Gymraeg. Gw. https://www.denbighshire.gov.uk/cy/swyddi-a-gweithwyr/datblygiad-gweithiwr/dysgu-cymraeg/fframwaith-sgiliau-iaith-gymraeg.aspx (cyrchwyd 12 Medi 2023).

Hwb (2022). Gw. https://hwb.gov.wales/amdanom-ni/ (cyrchwyd 4 Medi 2023).

Lee, V. V., Van der Lubbe, S. C. C., Goh, L. H., a Valderas, J. M. (2024). Harnessing ChatGPT for Thematic Analysis: Are We Ready?, *Journal of Medical Internet Research*, 26.

Llywodraeth Cymru (2017). Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr. Adroddiad blynyddol 2017-18. Gw. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-miliwn-o-siaradwyr-adroddiad-blynyddol-2017-18.pdf (cyrchwyd 18 February 2024).

Llywodraeth Cymru (2019a). Y Gymraeg mewn gofal sylfaenol. Gw. https://www.llyw.cymru/y-gymraeg-mewn-gofal-sylfaenol (cyrchwyd 10 Mehefin 2025)

Llywodraeth Cymru (2019b). Y Cwricwlwm i Gymru. MAES DYSGU A PHROFIAD Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Gw. https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu/cynllunio-eich-cwricwlwm/#cymraeg-mewn-addysg-cyfrwng-saesneg (cyrchwyd 21 Ebrill 2024).
Llywodraeth Cymru (2020). Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd. Gw. https://www.llyw.cymru/cymraeg-maen-perthyn-i-ni-i-gyd-html (cyrchwyd 18 Medi 2023).
Llywodraeth Cymru (2021). Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru (canfyddiadau cychwynnol): Gorffennaf 2019 i Fawrth 2020 (diwygiedig). Gw. https://www.llyw.cymru/y-defnydd-or-gymraeg-yng-nghymru-canfyddiadau-cychwynnol-gorffennaf-2019-i-fawrth-2020-diwygiedig (cyrchwyd 21 Ebrill 2024).
Llywodraeth Cymru (2022a). Mwy na geiriau. Cynllun pum mlynedd 2022–2027. Gw. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-07/mwy-na-geiriau-cynllun-gweithredu-2022-2027.pdf (cyrchwyd 18 Medi 2023).
Llywodraeth Cymru (2022b). Y Gymraeg yn y cartref ac mewn addysg (Arolwg defnydd iaith): Gorffennaf 2019 i Fawrth 2020. Gw. https://www.llyw.cymru/y-gymraeg-yn-y-cartref-ac-mewn-addysg-arolwg-defnydd-iaith-gorffennaf-2019-i-fawrth-2020-html (cyrchwyd 10 Mehefin 2025).
Llywodraeth Cymru (2022c). Safonau'r Gymraeg: canllawiau cyfathrebu a marchnata. Gw. https://www.llyw.cymru/safonaur-gymraeg-canllawiau-cyfathrebu-a-marchnata (cyrchwyd 21 Ebrill 2024).
Sgiliaith, (2022). Llawlyfr i Gefnogi Tiwtoriaid Addysg Bellach: Sut i symud eich arferion addysgu i fyny'r continwwm dwyieithrwydd. Gw. https://www.gllm.ac.uk/content/files/Sgiliaith/LlwrHandbook_CY-1-2.pdf (cyrchwyd 22 Gorffennaf 2023).